

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
HYBRID 0300 200 6565
Dyddiad: Dydd Llun, 7 Tachwedd 2022 Deisebau@senedd.cymru
Amser: 14.00

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 21)

2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1288 Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Gyflenwi yr Arglwydd Burns, yn llwyddiant cyflym

(Tudalennau 22 – 27)

2.2 P-06-1296 Gwnewch gyffordd Dorglwyd, Comins Coch ar yr A487 yn fwy diogel

(Tudalennau 28 – 31)

2.3 P-06-1298 Deiseb ar gyfer ymchwiliad Llywodraeth Cymru i ymgyrch gweithredwyr hawliau traws ym Mhrifysgol Caerdydd

(Tudalennau 32 – 38)

2.4 P-06-1301 Ailystyried eithrio staff cartrefi gofal rhag cael y taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

(Tudalennau 39 – 44)

2.5 P-06-1303 Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio

(Tudalennau 45 – 57)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol

(Tudalennau 58 – 62)



3.2 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl

(Tudalennau 63 – 65)

3.3 P-06-1289 Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau llety gwyliau ac ail gartrefi

(Tudalennau 66 – 71)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Cyflenwi yr Arglwydd Burns, yn Ilwyddiant cyflym

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Tachwedd 2022
Petitions Committee | 7 November 2022

Cyfeirnod: SR22/3945-4

Rhif y ddeiseb: P-06-1288

Teitl y ddeiseb: Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Gyflenwi yr Arglwydd Burns, yn Ilwyddiant cyflym.

Testun y ddeiseb:

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyflymu'r broses o agor gorsaf gerdded ym Magwyr a Gwndy, a hynny fel 'Ilwyddiant cyflym' yn y broses o roi adroddiad yr Arglwydd Burns ar waith. Mae angen yr orsaf yn awr, gyda phoblogaeth Magwyr a Gwndy yn ehangu'n gyflym, a'r ardal ar fin dod yn dref.

Mae Grŵp Gweithredu Rheilffordd Magwyr (MAGOR) wedi bod yn ymgyrchu ers 10 mlynedd, gyda'r nod o adfer gorsaf reilffordd ar gyfer cymunedau Magwyr a Gwndy. Mae'r ymgyrch hon wedi ennyn cefnogaeth frwd gan y gymuned a chefnogaeth gynhwysfawr gan wleidyddion lleol yn y sir a'r Senedd, a chan ein Haelod Seneddol. O ganlyniad, cafodd y cynllun hwn ei gynnwys yn yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad Burns ac yn y Rhaglen Gyflenwi gysylltiedig. Credwn y byddai'r cam hwn yn 'Ilwyddiant cyflym' gan ei fod yn elfen dechnegol o'r cynllun sydd yn syml ac yn gost-effeithiol.

Mae hanes llawn yr ymgyrch ar gael ar ein gwefan: magorstation.co.uk.



1. Cefndir

Llywodraeth y DU a Network Rail sy'n gyfrifol am gynllunio ac ariannu seilwaith y rheilffyrdd, gan gynnwys gorsafoedd, yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i fuddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd ac mae'n gyfrifol am wasanaethau rheilffyrdd Cymru a ddarperir drwy Trafnidiaeth Cymru.

Caeodd hen orsaf drenau Magwyr ym 1964 yn dilyn Adroddiad Beeching. Cafodd Grŵp Gweithredu Magwyr ar Reilffyrdd (MAGOR) ei ffurfio yn 2012 i ymgyrchu dros ailagor yr orsaf. Ers hynny, mae wedi gweithio i ailagor yr orsaf, gan gynnwys gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy ar geisiadau i Gronfa Gorsafoedd Newydd (NSF) Adran Drafnidiaeth y DU yn 2016 (NSF 2), ac eto yn 2020 (NSF 3). Methodd y ceisiadau hyn.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo ffordd liniaru'r M4 yn 2019, cafodd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ('Comisiwn Burns') i ystyried dewisiadau eraill. Roedd ei adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn cynnig 'rhwydwaith o ddewisiadau amgen' yn lle'r ffordd liniaru.

Argymhellodd Comisiwn Burns 'rhaglen o ddatblygiadau gorsafoedd trenau newydd ar hyd y brif reilffordd, wedi'i hwyluso drwy ad-drefnu gwasanaethau rheilffyrdd'. Roedd hyn yn cynnwys rhestr o chwe gorsaf newydd rhwng gorsaf Caerdydd Canolog a Chyffordd Twannel Hafren, gan gynnwys gorsaf newydd ym Magwyr fel gorsaf 'cerdded a theithio', a ragwelwyd fel gorsaf 'tarddle' yn bennaf i wasanaethu'r gymuned leol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo argymhellion y Comisiwn wedi hynny. Cafodd uned gyflawni ei sefydlu dan arweiniad Trafnidiaeth Cymru. Mae tudalen yr uned ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn dweud:

Mae'r Uned yn canolbwyntio i ddechrau ar hwyluso gwelliannau i reilffordd Prif Linell De Cymru, a gorsafoedd newydd ar ei hyd, ynghyd â chymryd agwedd ymarferol at ddylunio opsiynau ar gyfer coridorau bysiau a theithio llesol yn a rhwng Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy, yn gwella mynediad i fysiau a theithio llesol a gorsafoedd rheilffordd hen a newydd.

Mae'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022 gan gadeiryddion yr uned gyflawni yn cynnwys llinell amser. Mae'r llinell amser hon yn dangos y

Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Gyflenwi yr Arglwydd Burns, yn llwyddiant cyflym

byddai cynlluniau ar gyfer gorsafoedd trenau newydd a gwelliannau i'r traciau yn cael eu datblygu rhwng 2021 a 2026, a byddai gorsafoedd a gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno rhwng Caerdydd Canolog a Chyffordd Twnnel Hafren rhwng 2025 a 2029. Fodd bynnag, fel y nododd adroddiad Comisiwn Burns, mae angen i Lywodraeth y DU gymryd camau i wella'r seilwaith rheilffyrdd gan mae hi sy'n gyfrifol am y maes hwnnw yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwywyd argymhellion Comisiwn Burns gan [Adolygiad Cysylltedd yr Undeb](#), a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU i lunio argymhellion i wella cysylltedd trafnidiaeth ledled y DU.

Mewn [datganiad i'r wasg](#) i gyhoeddi adroddiad yr adolygiad, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai'n ystyried argymhellion Adolygiad Cysylltedd yr Undeb yn fanwl, gan weithio gyda'r llywodraethau datganoledig. Ym mis Mai 2022, dywedodd [yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth](#) ei fod yn disgwyl cyhoeddi ymateb yn ddiweddarach eleni.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae llythyr Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, at y Cadeirydd yn tynnu sylw at argymhellion Comisiwn Burns ac yn dweud:

Mae'r uned wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y gwelliannau i gapasiti Prif Linell De Cymru a fyddai'n galluogi gorsafoedd newydd arni, ac mae gwaith bellach ar waith i arwain y penderfyniadau nesaf.

Yn fy marn i mae gwelliannau i'r rheilffyrdd yn allweddol i'r gwaith o wella ein hagenda trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, nad yw'r rhan fwyaf o'n seilwaith rheilffordd – na'r cyllid ar ei gyfer – wedi cael ei ddatganoli, a Llywodraeth y DU sy'n llawn gyfrifol amdano. Byddwn yn pwysu ar Lywodraeth y DU i bwerau dros seilwaith rheilffyrdd gael eu datganoli yn llawn i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â setliad cyllid llawn a theg.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae cael gorsaf ym Magwyr yn fater y mae Aelodau wedi'i godi droeon yn y Senedd. [Mae ymatebion diweddar i gwestiynau ysgrifenedig](#) yn adlewyrchu cynnwys llythyr y Dirprwy Weinidog.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1288
Ein cyf/Our ref LW/01251/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

14 Medi 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mehefin ynglŷn â deiseb P-06-1288 – Agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfarwydd iawn â gwaith Grŵp Gweithredu Rheilffyrdd Magwyr, ac mae camau ar waith i fwrw ymlaen â datblygu cynigion ar gyfer gorsaf ym Magwyr.

Roedd yr Arglwydd Burns a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cefnogi gorsaf ym Magwyr fel rhan o'u hargymhellion i'r Comisiwn, a gwnaethom dderbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor ar unwaith. Er mwyn gwneud hynny, mae Uned Gyflawni Burns wedi cael ei sefydlu er mwyn gweithredu'r argymhellion yn gyflym, ac mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gael yma: [2022-02-01 Burns Report WELSH V2-min.pdf \(trc.cymru\)](https://trc.cymru/2022-02-01-Burns-Report-WELSH-V2-min.pdf)

Mae'r uned wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y gwelliannau i gapasiti Prif Linell De Cymru a fyddai'n galluogi gorsafoedd newydd arni, ac mae gwaith bellach ar waith i arwain y penderfyniadau nesaf.

Yn fy marn i mae gwelliannau i'r rheilffyrdd yn allweddol i'r gwaith o wella ein hagenda trafndiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, nad yw'r rhan fwyaf o'n seilwaith rheilffordd – na'r cyllid ar ei gyfer – wedi cael ei ddatganoli, a Llywodraeth y DU sy'n llawn gyfrifol amdano. Byddwn yn pwysu ar Llywodraeth y DU i bwerau dros seilwaith rheilffyrdd gael eu datganoli yn llawn i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â setliad cyllid llawn a theg.

Yn gywir,

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 26
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-06-1288 Deliver Magor and Undy Walkway Station, part of the Burns Delivery Programme, as a quick win, Correspondence – Petitioners to Committee, 27.09.22

Petition P-06-1288 - Deliver Magor and Undy Walkway Station.

Dear Sir,

Thank you for the opportunity to comment on the report that is going to the petitions committee.

We believe that generally it is a good reflection of the current status of Magor & Undy Walkway station implementation plan.

However, the petition itself calls for a speedy delivery of the station to –

- Mitigate the cancellation of the M4 decision
- Demonstrate commitment to implementing the Lord Burns recommendations
- Take the opportunity of a quick win and good news story for our community.

Briefly, and if you could include this paragraph from our consultant engineer in your report, the reasons why –

“It is very pleasing to see the station is being seen in the media (recent Monmouthshire County Council press release) by everyone. It needs to be delivered as the quick win as the one station that does not have to wait for any decision on the likes of the Relief Lines upgrade, as it fits unaltered whatever the outcome of those deliberations and has the benefit of not requiring any alteration to the signalling or overhead line equipment positioning. Therefore. it does not have to be held back by deliberations on any of the other ‘Burn’s’ stations and it can be introduced quickly and as the lowest cost of all the proposed new stations because it avoids the need and costs of any track slews and using the existing underpass between the platforms avoids the significant costs of providing a disabled access footbridge; it will demonstrate action taken now as an alternative to building a new M4.

Kind regards

Paul Turner and Ted Hand (Magor Action Group on Rail)

P-06-1296 Gwnewch gyffordd Dorglwyd, Comins Coch ar yr A487 yn fwy diogel

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Tachwedd 2022
Petitions Committee | 7 November 2022

Cyfeirnod: SR22/3945-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1296

Teitl y ddeiseb: Gwnewch gyffordd Dorglwyd, Comins Coch ar yr A487 yn fwy diogel

Testun y ddeiseb:

Mae'r gyffordd hon ar yr A487 yn beryglus iawn. Bu llawer o ddamweiniau arni, a digwyddiadau a oedd bron yn ddamweiniau. Daw ceir rownd y gornel ddall yn rhy gyflym.

Credwn y byddai modd gwella diogelwch drwy gyfyngu'r cyflymder i 30 mya neu drwy osod cylchfan neu oleuadau traffig.



1. Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd a'r awdurdod traffig sy'n gyfrifol am rwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol.

Mae'r A487 yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd ac mae'n rhedeg o Abergwaun i Fangor. Mae CrashmapUK yn dangos y bu nifer o ddigwyddiadau ger cyffordd Comins Coch yn y 10 mlynedd diwethaf.

Ym mis Mai 2022 roedd adroddiad am y ddeiseb yn y wasg, gyda'r erthygl yn cynnwys sylw gan Lywodraeth Cymru ei bod yn gweithio ar gynllun i wella diogelwch ffyrdd a gwelededd yn ardal y gyffordd.

Panel adolygu ffyrdd

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y byddai panel adolygu ffyrdd yn adolygu buddsoddiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru o ran ffyrdd. Cyhoeddodd saib ar bob cynllun ffyrdd newydd tra bod yr holl gynlluniau presennol yn cael eu hadolygu.

Mae cylch gorchwyl y panel yn amlinellu yr hyn y gallai buddsoddiad Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arno yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys "buddsoddi sy'n cynnal diogelwch a gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd presennol".

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y panel ei adroddiad cychwynnol, gan nodi'r meini prawf y byddai'n eu defnyddio i adolygu pob cynllun ynghyd â rhestr o'r cynlluniau o fewn cwmpas yr adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys cynllun ar yr A487 yng Nghomins Coch.

Ym mis Medi, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad pellach yn nodi bod y panel wedi cyflwyno ei adroddiad terfynol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

Byddaf yn ystyried adroddiad ac argymhellion y panel ochr yn ochr â chynghor swyddogion. Rwy'n bwriadu cyhoeddi adroddiad y panel a'm penderfyniad yn ystod yr hydref, pan fydd y broses hon wedi'i chwblhau.

2. Y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd dyddiedig 10 Hydref, mae'r Dirprwy Weinidog yn amlinellu'r adolygiad o ffyrdd ac yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru:

...yn gweithredu ar unrhyw argymhellion o ran y gyffordd hon cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn cymeradwyaeth a dyraniad cyllid.

3. Y camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Ym mis Mai 2022, cyflwynodd **Natasha Asghar AS** gwestiwn ysgrifenedig ynglŷn â'r swm a wariwyd ar gynllun A487 Dorglwyd Comins Coch cyn i'r ffordd gael ei chynnwys fel rhan o'r adolygiad ffyrdd.

Mae **ymateb y Dirprwy Weinidog** yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau ochr yn ochr â'i phenderfyniadau ar ôl ystyried adroddiad terfynol y panel.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1296
Ein cyf/Our ref LW/01783/22

Jack Sargeant AS

10 Hydref 2022

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Awst ynglŷn â deiseb P-06-1296, i wneud cyffordd Comins Coch (Dorglwyd) ar yr A487 yn fwy diogel.

Fel y gwyddoch, cyhoeddais adolygiad o waith adeiladu ffyrdd yng Nghymru ym mis Mehefin 2021 a oedd yn ymgais onest ac egwyddorol i geisio sicrhau bod y wyddoniaeth wirioneddol frawychus ynghylch newid hinsawdd wrth wraidd polisi trafniadaeth i'r dyfodol. Ar 10 Chwefror, mi wnes i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig i gyflwyno'r newyddion diweddaraf am y gwaith a hefyd restr o gynlluniau oedd yn rhan o'r adolygiad, ac roedd cynllun Comins Coch/Dorglwyd wedi ei gynnwys fel cynllun rhif 13 ar y rhestr yma.

Mae'r Panel Adolygu Ffyrdd wedi cynnal gwaith craffu manwl ar yr holl gynlluniau sydd o fewn cwrpas yr adolygiad. Mae Llywodraeth Cymru nawr yn derbyn cynngor terfynol y Panel ac yn ei ddefnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar y cynlluniau hynny. Byddaf yn cyhoeddi fy ymateb i'r adroddiad unwaith y bydd y broses honno wedi'i chwblhau yn ystod y misoedd nesaf.

Unwaith y byddwn yn gwybod canlyniad yr adolygiad ffyrdd, byddwn yn gweithredu ar unrhyw argymhellion o ran y gyffordd hon cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn cymeradwyaeth a dyraniad cyllid.

Yn gywir

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 31

Deiseb ar gyfer ymchwiliad Llywodraeth Cymru i ymgyrch gweithredwyr hawliau traws ym Mhrifysgol Caerdydd.

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Tachwedd 2022
Petitions Committee | 7 November 2022

Cyfeirnod: SR22/3945-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1298

Teitl y ddeiseb: Deiseb ar gyfer ymchwiliad Llywodraeth Cymru i ymgyrch gweithredwyr hawliau traws ym Mhrifysgol Caerdydd.

Testun y ddeiseb: Yn ystod y misoedd diwethaf ym Mhrifysgol Caerdydd, mae gweithredwyr hawliau trawsryweddol wedi cynnal ymgyrch aflonyddu a bygythiadau treisgar yn erbyn academyddion sy'n feirniadol o Stonewall. Rydym yn teimlo nad yw'r brifysgol na'r heddlu wedi amddiffyn yr academyddion sydd, o bosibl, yn adlewyrchu cysylltiadau'r sefydliadau hyn â Stonewall. Rydym yn galw am ymchwiliad i'r mater hwn.

Mae mwy o wybodaeth am yr achos hwn i'w gweld [yma](#):



1. Cefndir

Ar 17 Mehefin 2021, llofnododd 15 academydd ym Mhrifysgol Caerdydd **lythyr agored** yn galw am i gyfranogiad parhaus y Brifysgol yn **Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** gael ei ailystyried.

Sefydlwyd y rhaglen yn 2001 i gefnogi cyflogwyr i ymgorffori cynhwysiant LHDTC+ yn eu gweithleoedd a mynd ar y **Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle** a'r **Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Byd-eang**, lle cânt eu meincnodi yn erbyn cwmnïau eraill. Yn 2021, daeth nifer o gyflogwyr proffil uchel, a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, â'u partneriaeth â Stonewall i ben. **Mae'r rhain yn cynnwys** corff gwarchod y cyfryngau, sef Ofcom, y BBC, Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, a chorff gwarchod cydraddoldeb y DU, sef y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**.

Mynegodd y llythyr gefnogaeth i hawliau staff a myfyrwyr trawsryweddol, ond dywedodd fod angen i'r aelodaeth barhaus o **Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** gael ei adolygu ar y sail a ganlyn:

being associated with Stonewall lies in tension with two of the university's core values: 1) academic freedom and 2) respect for the rights of all staff and students, including women.

Cafodd Prifysgol Caerdydd **lythyr** arall gan staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr a oedd yn gwrthwynebu'r honiadau a wnaed, gan nodi:

this is a gross misreading of the Equality Act: transphobic views, like homophobic views, are only protected beliefs – people have the right to hold these views, but Universities and other institutions have no duty to protect them from criticism or academic rigour in a democratic society.

Galwodd y llythyr ar Brifysgol Caerdydd i gyhoeddi datganiad o'r newydd yn ymrwymo i hawliau a llesiant eu staff a'u myfyrwyr LHDTC+.

1.1. Camau a gymerwyd gan y Brifysgol

Mewn llythyr at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ym mis Chwefror 2022 gan y **Free Speech Union**, darparwyd llinell amser fanwl o ddigwyddiadau ar ôl i'r llythyr agored gael ei gyhoeddi, gan gynnwys disgrifiadau o'r bygythiadau honedig yn erbyn llofnodwyr y llythyr a chyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Dirprwy Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr Cyfathrebu'r Brifysgol a'r camau a gymerwyd ganddynt.

Yn ôl y llythyr, ar ôl i'r llythyr gael ei gyhoeddi:

a leaflet was distributed on campus picturing a woman holding a gun, the names and pictures of the signatories, and the caption "ACT NOW". A student whistleblower then revealed violent threats being made on the Facebook page of the Cardiff LGBT+ Society.

Dywed hefyd fod naw o'r 15 llofnodwr gwreiddiol wedi ysgrifennu at y Dirprwy Is-ganghellor ym mis Ionawr 2022 i fynegi eu hanfodlonrwydd â'r modd yr ymdriniwyd â'r mater, gan nodi bod y Brifysgol wedi anwybyddu tystiolaeth hollbwysig a:

the University is failing to uphold its legal duty under section 43 of the Education (No 2) Act 1986 to secure freedom of speech. Worse, when serious and well-evidenced concerns about this hostile campaign were brought to the University's attention, it neglected to act, misplaced evidence, failed to conduct a timely and thorough investigation and refused to re-open the investigation when the violent threats were repeated.

Mae hefyd yn nodi i'r Dirprwy Is-Ganghellor, er gwaethaf yr ymgyrch barhaus yn erbyn yr academyddion hyn, ddod i'r casgliad nad oedd angen gwneud datganiadau pellach ar y mater hwn a bod y Brifysgol wedi gweithredu'n 'rhesymol' ac wedi cymryd camau ymarferol i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant yr holl staff a myfyrwyr sy'n ymwneud â'r mater hwn.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, galwodd y Free Speech Union ar y Gweinidog i wneud y canlynol:

Consider what interpretation you might make with the Vice-Chancellor or elsewhere that could have a material impact. In particular, we would welcome any action you could take to remind Cardiff [University] of its legal duties under current legislation.

Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Deisebau, dywedodd y Gweinidog:

Gan fod sefydliadau addysg uwch yn gyrff ymreolaethol, mae anghydfodau rhwng myfyrwyr, staff a'u prifysgolion yn fater i'r prifysgolion eu hunain. Nid yw Llywodraeth Cymru na Gweinidogion

Cymru yn gallu ymyrryd felly. Mae unrhyw achosion posibl o ymddygiad annerbyniol honedig gan staff neu fyfyrwyr, yn y pen draw, yn fater i'r brifysgol fynd i'r afael â nhw o dan ei pholisïau mewnol.

Pwysleisiodd y Gweinidog y byddai'n "disgwyl i'r brifysgol barhau i fodloni'r holl ofynion deddfwriaethol o ran rhyddid i leisio barn a rhyddid academiaidd a'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010."

Dywed y Gweinidog fod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sef rheoleiddiwr statudol addysg uwch yng Nghymru, wedi derbyn "sicrwydd gan y brifysgol bod ymchwiliad trwyadl wedi cael ei gynnal i'r mater" a bod yr heddlu'n "fodlon nad oedd tystiolaeth o unrhyw dorcyfraith."

Dywed nad oes unrhyw "dystiolaeth glir" yn llythyr y Free Speech Union fod cydymffurfiaeth deddfwriaethol wedi cael ei thorri a bod y brifysgol wedi cyhoeddi Cod Ymarfer a'i bod felly wedi cydymffurfio ag Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986. Dywed y Gweinidog hefyd mai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n gyfrifol am ymchwilio i gydymffurfedd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob prifysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2020.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1298
Ein cyf/Our ref JMEWL/01757/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

05 Hydref 2022

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Awst ynghylch deiseb P-06-1298 a gofrestrwyd gan Christian Wilton-King am ymgyrchwyr hawliau Traws ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gan fod sefydliadau addysg uwch yn gyrrff ymreolaethol, mae anghydfodau rhwng myfyrwyr, staff a'u prifysgolion yn fater i'r prifysgolion eu hunain. Nid yw Llywodraeth Cymru na Gweinidogion Cymru yn gallu ymyrryd felly. Mae unrhyw achosion posibl o ymddygiad annerbyniol honedig gan staff neu fyfyrwyr, yn y pen draw, yn fater i'r brifysgol fynd i'r afael â nhw o dan ei pholisïau mewnol. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i'r brifysgol barhau i fodloni'r holl ofynion deddfwriaethol o ran rhyddid i leisio barn a rhyddid academiaidd a'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i fyfyrwyr a staff fedru parhau gyda'u hastudiaethau a'u gyrfa mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag aflonyddu, gwahaniaethu neu erledigaeth.

Er bod natur yr honiadau yn syrthio y tu hwnt i'w gylch gorchwyl, mae fy swyddogion wedi siarad â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), rheoleiddiwr statudol addysg uwch yng Nghymru, ynglŷn â'r mater hwn. Derbyniwyd sicrwydd gan y brifysgol bod ymchwiliad trwyadl wedi cael ei gynnal i'r mater. Rwy'n deall bod y mater hefyd wedi cael ei gyfeirio at yr Heddlu, a'u bod yn fodlon nad oedd tystiolaeth o unrhyw dorcyfraith.

Mae llythyr dyddiedig 22 Chwefror y Free Speech Union yn cynnwys nifer o honiadau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth glir yn y llythyr o dorri cydymffurfiaeth deddfwriaethol (naill ai Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 neu Adran 202 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988). Yn benodol, nid yw CCAUC wedi gweld unrhyw beth sy'n awgrymu bod academyddion wedi cael eu hatal gan y Brifysgol rhag mynegi barn ddadleuol neu amhoblogaidd neu bod perygl o golli eu swyddi neu eu breintiau o ganlyniad i'w barn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion gyhoeddi a diweddarau Cod Ymarfer sy'n nodi gweithdrefnau i'w dilyn o ran cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ac ymddygiad staff a myfyrwyr mewn cysylltiad â'r gweithgareddau hyn. Mae Prifysgol Caerdydd wedi cyhoeddi Cod Ymarfer mor ar Ryddid i Lefaru, gyda'r diweddariad diwethaf ym mis Hydref 2020. Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys cyfeiriad at ymddygiad aelodau a gweithwyr y Brifysgol:

“Mae'n ddyletswydd ar bob cyflogai neu aelod o Brifysgol Caerdydd i ymatal rhag unrhyw ymddygiad neu gamau gweithredu sy'n amharu ar arfer y rhyddid i lefaru'n gyfreithlon. Bydd yn drosedd ddisgyblu i unrhyw gyflogai neu aelod o Brifysgol Caerdydd weithredu mewn ffordd aflonyddgar neu fygythiol mewn cyfarfod penodedig at ddiben atal siaradwr rhag cael ei glywed, neu atal y drafodaeth neu gyflawni unrhyw fusnes arall y cynhaliwyd y cyfarfod ar ei chyfer/gyfer. Bydd yn drosedd ddisgyblu i unrhyw gyflogai neu aelod o Brifysgol Caerdydd helpu neu annog unigolion eraill i weithredu yn y fath fodd.”


Mae'r Cod Ymddygiad yn ymwneud yn bennaf â chyfarfodydd a digwyddiadau. Fodd bynnag, bydd gan y brifysgol hefyd gyfrifoldeb o dan Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 i gymryd camau rhesymol ymarferol i sicrhau rhyddid i leisio barn o fewn y gyfraith i'w gweithwyr.

Mae'r mater hwn hefyd yn ennyn cyfrifoldebau sefydliadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn y cyd-destun hwn, mae gan bob prifysgol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, ddyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau:

- Cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waharddir gan y Ddeddf,
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt, a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer cydymffurfio â'r Ddyletswydd yng Nghymru, byddai unrhyw gamau ymchwilio mewn perthynas â'r mater hwn yn fater i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y lle cyntaf. Pe bai ymchwiliad yn gweld unrhyw achosion o dorri gofynion deddfwriaethol gan y brifysgol, yna mater i CCAUC fyddai penderfynu os oedd y mater hefyd yn torri gofynion rheoleiddio.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

P-06-1298 Petition for a Welsh Government inquiry into the campaign of trans rights activists at Cardiff University – Petitioner to Committee, 25.10.22

Dear sir/madam

Please see my response to Jeremy Miles's letter (see attached) below:

I am unhappy with the Education Minister's response. Even if this affair does not formally lie within the competences of the Welsh Government, Cardiff University is the premier university of Wales. Therefore, the Senedd should ensure that the university maintains standards which are consistent with those expected in Welsh public life.

In this case, Cardiff University has engaged in egregious misconduct. At a protest on campus on 21 June 2021, protestors distributed a leaflet picturing a woman holding a gun, the names and pictures of the signatories of the letter, and the caption "ACT NOW". Yet despite knowing the identity of the individual who produced the leaflets, Cardiff University failed to take any action or conduct a meaningful investigation.

Moreover, students threatened to kneecap and throat-punch signatories of the letter on social media. But despite knowing the identities of the students, the university took no action. Why did Damian Walford Davies, Deputy Vice-Chancellor, claim that a threat to throat punch academics was an expression of opinion and not 'inciting violence or harassment'? Why did the university claim that such messages were the responsibility of Facebook, rather than the university? Would the university adopt this position in other cases of harassment which involve staff and/or students and take place on social media?

In short, the university has engaged in a cover up, exposing academics to serious harassment and critically undermining freedom of speech. We call for a Senedd investigation into this affair.

Kind regards

Christian Wilton-King

Ailystyried eithrio staff cartrefi gofal rhag cael y taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Tachwedd 2022
Petitions Committee | 7 November 2022

Cyfeirnod: SR22/3945/6

Rhif y ddeiseb: P-06-1301

Teitl y ddeiseb: Ailystyried eithrio staff cartrefi gofal rhag cael y taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Geiriad y ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ceisiadau am daliad Gofal Cymdeithasol Ychwanegol wedi'i alinio â'r Cyflog Byw Gwirioneddol (taliad trethadwy o £1,498). Mae'n dweud bod y taliad ychwanegol "yn dangos ein hymrwymiad i wella statws, telerau ac amodau a llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr cymdeithasol."

Wrth eithrio pob rôl hanfodol arall mewn cartref gofal, teimlwn fod y Llywodraeth wedi dibrisio ein cyfraniad, a'i bod yn disytyru'r darparwyr gofal hanfodol hyn y mae rheolwyr gofal yn cytuno eu bod yn gwbl angenrheidiol!

Dim ond 'gweithwyr gofal, uwch staff gofal, rheolwyr gofal a nyrsys' cymwys fydd yn cael y taliad hwn ac mae cydweithwyr yn yr un cartref sydd mewn swyddi arlwy, glanhau a chynnal a chadw, swyddogion cyllid, therapyddion, staff cymorth busnes, hyfforddwyr, staff derbynfa a chydlynwyr gweithgareddau yn cael eu heithrio'n benodol.

Fel y dywedodd rheolwr fy nghartref gofal i: "Os nad oes gen i bobl yn coginio bwyd yn y gegin sut y byddaf yn bwydo'r preswylwyr?"



Mae pawb yn gwybod bod gwaith gofal yn talu'n wael, felly mae'r rhan fwyaf sy'n gwneud y gwaith yn gwneud hynny oherwydd eu cariad a'u tosturi tuag at y rhai y maent yn gofalu amdanynt. Er ei bod yn hen bryd cydnabod y swyddi gwyh hyn, mae'n hynod annheg gwahaniaethu rhwng swyddi mewn lleoliad cartref gofal.

Helpwch i gefnogi staff ein cartrefi gofal!

1. Y cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y taliad ychwanegol gofal cymdeithasol wedi'i alinio â'r cyflog byw gwirioneddol ym mis Chwefror 2022, a chyhoeddi canllawiau pellach ar y meini prawf cymhwysedd ym mis Mawrth (a gafodd ei ddiweddarau ddiwethaf ym mis Medi).

Roedd y "codiad hwn i'r cyflog byw gwirioneddol" yn berthnasol i bawb sy'n gymwys i dderbyn y cyflog byw gwirioneddol: gweithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal a gofal cartref, mewn gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant; Cynorthwywyr Personol a gaiff eu hariannu drwy Daliad Uniongyrchol; ac uwch staff a rheolwyr gofal mewn cartrefi gofal a gofal cartref. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r taliad yn cael ei wneud i tua 53,000 o weithwyr gofal cymdeithasol ar draws Cymru.

Roedd y canllawiau'n nodi y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn y taliad ym mis Mehefin 2022, a chaeodd y cynllun i bob cais newydd ar 30 Mehefin.

Yn ôl y canllawiau, ymhlith y swyddi nad ydynt yn gymwys i dderbyn y taliad mae:

Staff eraill cartrefi gofal a chanolfannau preswyl i deuluoedd nad ydynt yn ddarostyngedig i ofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Er enghraifft, staff arlwygo, glanhau a chynnal a chadw, swyddogion cyllid, therapyddion, cymorth busnes, hyfforddwyr, staff derbynfa a chydlynwyr gweithgareddau.

Pan gyhoeddwyd y cynllun ym mis Chwefror, mynegodd Fforwm Gofal Cymru bryderon yn y cyfryngau y byddai rhai staff ategol - fel cogyddion, gweithwyr cymorth gofal a glanhawyr - ar eu colled, a galwodd ar i bawb sy'n gweithio yn y sector gofal i gael y taliad.

Nododd Llywodraeth Cymru fod dau gynllun blaenorol yn 2020 a 2021 wedi gwneud taliadau cydnabyddiaeth i wobrwyo ymdrechion yr holl staff gofal cymdeithasol yn ystod pandemig Covid. Dywedodd bod y taliad ychwanegol hwn yn wahanol, oherwydd ei fod "wedi'i gyplysu'n benodol â chyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol ac mae'n ffurfio rhan o'n hymrwymiad i wneud gwelliannau i ddatblygiad proffesiynol staff gofal cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref."

2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn gwerthfawrogi'r siom a deimlir gan y deisebydd a staff eraill cartrefi gofal nad ydynt wedi'u cynnwys yn hyn, a phwysleisiodd ei bod yn ymwybodol bod staff glanhau, staff arlwy, a staff ategol eraill yn cynnig cefnogaeth werthfawr i staff a phreswylwyr mewn cartrefi gofal.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog bod staff ategol wedi cael budd, sydd ond yn deg, o ddau gynllun blaenorol yn 2020 a 2021, a wnaeth daliadau o £500 a £735, i gydnabod a gwobrwyo staff yn ystod pandemig Covid. Pwysleisiodd fod y cynllun taliad ychwanegol hwn "yn wahanol iawn", gan ei fod yn cyd-fynd yn benodol â chyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol.

Nid yw staff ategol mewn cartrefi gofal wedi'u cynnwys wrth gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

While ancillary staff such as cooks and cleaners in care homes work in the social care sector and provide essential support that helps maintain the quality of provision, they are not expected to deliver personal care services and are not required to register as social care professionals with Social Care Wales. This is why ancillary staff are not within the scope of this particular initiative. This is not intended to devalue the valuable contribution ancillary staff make.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1301
Ein cyf/Our ref JMSS/01000/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

07 Hydref 2022

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Medi at Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynglŷn â'r cynllun taliadau ychwanegol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol. Gofynnwyd imi ymateb gan fod hyn yn rhan o'm maes cyfrifoldeb.

Rwy'n deall pam mae Anita Braine, a'r staff eraill sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, yn teimlo'n siomedig nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn, a pham maent wedi deisebu'r Pwyllgor. Rwy'n gwybod bod staff glanhau, staff arlwy, a staff atodol eraill yn rhoi cymorth gwerthfawr i staff a phreswylwyr mewn cartrefi gofal.

Mae staff atodol wedi elwa ar ddau gynllun blaenorol yn 2020 a 2021, pan ddarparwyd taliadau o £500 a £735. Cafodd y taliadau hyn eu gwneud i gydnabod a gwobrwyo cyfraniad holl staff cartrefi gofal, a roddodd gwasanaethau hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig COVID.

Mae'r cynllun taliadau a gyhoeddais ar 10 Chwefror, yn gynllun eithaf gwahanol.
[Datganiad Ysgrifenedig: Taliad ychwanegol i staff gofal cymdeithasol ynghyd â'r cyflog byw gwirioneddol \(10 Chwefror 2022\) | LLYW.CYMRU](#)

Mae'n cyd-fynd yn benodol â chyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'n dangos ein hymrwymiad i wella telerau ac amodau swyddi gofal cymdeithasol, ac i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig ymhellach, drwy gynnig llwybrau gyrfa gwell a sicrhau bod cyfleoedd i symud ymlaen at swyddi sydd â mwy o gyfrifoldebau.

Nid yw staff atodol wedi eu cynnwys wrth inni gyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol. Er bod staff atodol, megis cogyddion a glanhawyr mewn cartrefi gofal, yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol gan roi cymorth hanfodol sy'n helpu i gynnal ansawdd y ddarpariaeth, ni ddisgwylir iddynt ddarparu gwasanaethau gofal personol ac nid yw'n ofynnol iddynt gofrestru fel gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyna'r rheswm pam nad yw staff atodol yn rhan o gwmpas y fenter benodol hon. Ni fwriedir i hynny ddibrisio cyfraniad gwerthfawr y staff hynny.

Rydym yn gweithio'n agos gydag undebau llafur, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal i sicrhau bod diben a meini prawf cymhwysedd y cynllun hwn yn glir. Caeodd y cynllun o ran derbyn ceisiadau newydd ar 30 Mehefin. Rwy'n ymwybodol y bydd rhai grwpiau o weithwyr yn teimlo'n siomedig.

Yn gywir



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

P-06-1303: Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio

Y Pwyllgor Deisebau | 07 Tachwedd 2022
Petitions Committee | 07 November 2022

Cyfeirnod: SR22/3945-8

Rhif y ddeiseb: P-06-1303

Teitl y ddeiseb: Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio

Geiriad y ddeiseb: Mae gormod o rieni â theuluoedd ifanc yn cael eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn sgil diffyg darpariaeth gofal plant lleol fforddiadwy. Mae'r sefyllfa hon yn cadw plant a theuluoedd mewn tloidi, yn lleihau dewis i gyflogwyr, ac yn cael effaith negyddol ar les teuluoedd ac economi Cymru. Mae angen ymyrraeth ar lefel wleidyddol i sicrhau bod y sefyllfa hon yn cael sylw.

Fel cyn swyddog datblygu ym maes gofal plant, gallaf gadarnhau bod y sefyllfa'n waeth nawr nag yr oedd 10-15 mlynedd yn ôl, gyda gostyngiad enfawr mewn lleoedd gofal plant i fabanod a phlant hŷn. Fel rhan o'i hymrwymiad i blant a theuluoedd yng Nghymru, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ar fyrder opsiynau ar gyfer sicrhau bod gofal plant fforddiadwy yn hawl i bob teulu, yn yr un modd ag y mae addysg. Dylai'r Llywodraeth hyd yn oed ystyried lleoli meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant ar dir ysgolion, yn enwedig mewn adeiladau newydd neu safleoedd ysgol presennol lle mae digon o le i wneud hynny. Ni all y rhieni yr wyf yn eu hadnabod fanteisio ar gyfleoedd a fyddai o fudd i'w teuluoedd. Naill ai mae'r gofal plant yn anfforddiadwy, neu'n amlach na pheidio, nid oes gofal plant ar gael iddynt. Mae angen buddsoddiadau parhaus ar lefel Llywodraeth Cymru o ran



darparu lleoedd gofal plant a darparu cymorthdaliadau ar eu cyfer. Gadewch i ni arwain y ffordd i weddill y DU!

1. Y cefndir

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu sawl math o ddarpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, mewn gwahanol ardaloedd daearyddol:

- Mae gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i o leiaf **10 awr yr wythnos o ofal meithrin Cyfnod Sylfaen** o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed nes iddynt ddechrau yn yr ysgol yn llawn amser. Yn ymarferol mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnig rhagor.
- O dan '**Cynnig Gofal Plant**' Llywodraeth Cymru **mae llawer o rieni sy'n gweithio**, a rhai rhieni mewn sydd mewn addysg neu hyfforddiant, **yn gymwys i gael 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed**, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r 30 awr yn cynnwys o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar ac uchafswm o 20 awr yr wythnos o ofal plant.
- Mae'r rhaglen **Dechrau'n Deg** yn darparu **gofal plant am ddim i rieni plant 2 a 3 oed sy'n byw yn yr ardaloedd a gaiff eu diffinio fel yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru** am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael am 39 wythnos y flwyddyn,

gydag o leiaf 15 o sesiynau yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae cynlluniau i ehangu hyn wedi'u nodi isod.

Rhoddodd [Deddf Cyllido Gofal Plant \(Cymru\) 2019](#) 'y pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant rhieni cymwys sy'n gweithio ac i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath.'

Yn ei [Rhaglen Lywodraethu](#), mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ariannu gofal plant ar gyfer rhagor o deuluoedd 'lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith.' Ymhellach i hynny, fel rhan o'r [Cytundeb Cydweithio](#), bydd darpariaeth gofal plant a ariennir yn cael ei hymestyn i bob plentyn dwy flwydd oed. Ar 15 Mawrth, nododd Llywodraeth Cymru [fanylion](#) cam cyntaf yr ehangu hwn. Mewn [datganiad](#) yn y Cyfarfod Llawn ar y 27 Medi 2022, dywedodd Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, fod y cam cyntaf bellach yn cael ei gyflawni. Aeth ymlaen i ddweud y bydd y gwaith o gyflwyno'r ail gam yn dechrau ym mis Ebrill 2023, gan ddechrau gyda rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Dywedwyd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £26 miliwn mewn ehangu gofal plant Dechrau'n Deg dros y ddwy flynedd ganlynol.

Dywedodd [datganiad](#) diweddaraf y Dirprwy Weinidog hefyd y bydd y llywodraeth yn ceisio cynyddu'n sylweddol argaeledd y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg dros y cyfnod hwn. [Dywedodd](#) Julie Morgan hefyd bod 'cyllid ychwanegol gwerth hyd at £3.787 miliwn yn cael ei ddarparu i [Cwlwm](#) yn ystod y tair blynedd ariannol nesaf i gefnogi amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys hyfforddiant Cymraeg ychwanegol a phwrpasol, cefnogaeth bwrpasol i leoliadau cyfrwng Cymraeg...'

Cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd raglen waith cyfalaf newydd tair blynedd o £70 miliwn y bydd lleoliadau gofal plant cofrestredig yn cael cyfle i wneud cais amdanynt.

2. Bylchau yn y dddarpariaeth gofal plant bresennol, a beirniadaeth ohoni

Mae dau fath o fylchau allweddol yn y ddarpariaeth gofal plant, ac mae'r cyntaf yn ymwneud â **diffyg lle mewn darpariaeth gofal plant**. Mae'r ail yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd yn seiliedig ar oedran, lleoliad, ac incwm rhieni.

2.1. Bylchau mewn darpariaeth leol

Roedd Arolwg Gofal Plant 2022 a gynhaliwyd gan Yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant yn dangos bod digonolrwydd gofal plant wedi gostwng ers 2021 ar gyfer yr holl categorïau yng Nghymru, ac eithrio gofal ar ôl ysgol i blant 12-14 oed.

Mae gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi asesiadau o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal.

Pan ysgrifenyd y ddogfen hon cofnodwyd y nifer uchaf o lofnodwyr i'r ddeiseb, o bell ffordd, yng Ngheredigion, sydd yn ôl ei Asesiad o ddigonolrwydd gofal plant wedi canfod nad oedd digon o lefydd Gofal Plant ar gael i ateb galw rhieni. Yn yr awdurdod, cofnododd bod 375 o lefydd gofal plant wedi'u colli ar draws pob math o ofal plant rhwng 2017 a 2022. Mae'r asesiad yn nodi cofrestru darparwyr, recriwtio, a diffyg hyfforddiant, fel rhai o'r rhesymau dros y diffyg.

Mae adroddiad Yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant yn nodi bod prinder arwyddocaol mewn gofal plant i blant anabl, ac i blant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, gyda dim awdurdodau lleol yng Nghymru'n dweud bod gofal plant 'ym mhob ardal' ar gyfer y categorïau hyn. Noda'r adroddiad hefyd bod digonolrwydd i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig yn wael.

Mae Arolwg Gofal Plant 2022 Yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant yn nodi: rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr, Cymru oedd â'r cynnydd uchaf yng nghost gofal plant rhwng 2021 a 2022. Fodd bynnag, mae'r costau ar gyfer gofal plant yng Nghymru yn parhau i fod yn is na'r rhai yn Lloegr yn y rhan fwyaf o'r categorïau gofal plant.

2.2. Nid yw pob plentyn yn gymwys

Fel y nodir uchod, mae'r Cynnig Gofal Plant yn ychwanegu at yr hawl cyffredinol o 10 awr yr wythnos mewn meithrinfa cyfnod sylfaen, ac yn darparu hyd at gyfanswm o 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant dros 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer plant 3 a 4 mlwydd oed rhieni sy'n gweithio. I gymhwyso, rhaid i'r ddau riant (neu un yn achos rhieni sengl) fod yn gweithio, ac ennill (ar gyfartaledd) yr hyn sy'n cyfateb i weithio 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw neu fwy. Mae rhai eithriadau i blant rhieni sydd mewn addysg yn ogystal ag i rieni sy'n methu gweithio oherwydd anabledd. **I'r rhan fwyaf o blant teuluoedd nad ydynt yn gweithio, nid does dim darpariaeth gofal plant o dan y Cynnig Gofal Plant.**

O dan gynllun Dechrau'n Deg, darperir gofal plant rhan-amser ar gyfer plant 2 i 3 oed mewn lleoliadau penodol. Fel y nodir uchod mae cynlluniau i wneud y ddarpariaeth hon yn un gyffredinol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n gweithredu yn yr 'ardaloedd a ddiffinir fel yr ardaloedd mwyaf difreintiedig' yng Nghymru. Mae yna hefyd elfen fach o 'allgymorth' fel rhan o'r cynllun, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflwyno agweddau ar y rhaglen i blant ar draws yr awdurdod lleol ehangach. I'r rhan fwyaf o blant y tu allan i ardaloedd dynodedig Dechrau'n Deg, nid oes dim darpariaeth ar gyfer plant 2 i 3 oed ar hyn o bryd.

I blant hyd at 2 oed, er bod peth cymorth ar gael i helpu gyda chost gofal plant, fel Gofal plant di-dreth, does dim darpariaeth gofal plant am ddim.

Dywedodd Yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant y gall cymhlethdod y system gofal plant yng Nghymru ei gwneud yn anodd i rieni ei deall, a chael gafael ar ofal sydd ar gael. Roedd Jenny Rathbone AS yn ategu hyn, a chaiff ei dyfynnu mewn erthygl Fusnes y Senedd yn dweud, 'Nid yw'r system gyfredol yn ei gwneud hi'n hawdd; mae rhieni'n gorfod ymdopi â system gymhleth er mwyn hawlio cymorth gofal plant, a hynny er mwyn iddynt fod yn barod i fynd yn ôl i'r gwaith.' Nododd y Gwerthusiad o Flwyddyn 4 y Cynnig Gofal Plant y gallai fod angen canolbwyntio o'r newydd ar godi ymwybyddiaeth o'r darpariaethau gofal plant sydd ar gael o dan y Cynnig Gofal Plant.

Mae ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r hyn sy'n rhwystro rhieni sy'n gweithio rhag cael gafael ar ofal plant yn nodi bod teuluoedd incwm isel yn arbennig o debygol o fod mewn gwaith annodweddiadol, neu gael contractau dim oriau. Felly, mae'r diffyg gofal plant i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn debygol o gael mwy o effaith ar deuluoedd incwm isel.

Tynnodd yr ymchwiliad sylw hefyd at y bwlch mewn gofal plant rhwng diwedd cyfnod mamolaeth a chymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Mae Arolwg Gofal Plant 2022 yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant hefyd yn dangos bod gofal plant ar gyfer yr ystod oedran hwn yn ddrytach na'r ystodau oedran hyn.

O ran craffu ar y Bil Cyllido Gofal Plant ar y pryd, mynegodd y Comisiynydd Plant bryder y gallai 'canlyniad anfwriadol' cyfyngu gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio waethygu'r rhaniad rhwng y plant mwyaf breintiedig a difreintiedig. Caiff y pwynt hwn ei adleisio yn Arolwg Gofal Plant 2022 sy'n nodi bod gofal plant yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn.

3. Effaith gofal plant ar gyflogaeth

Mae [Arolwng Gofal Plant 2022](#) yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant yn awgrymu bod cynnydd mewn gofal plant yn arwain at ragor o rieni (yn enwedig mamau) yn dychwelyd i'r gwaith. Nodwyd y duedd hon hefyd gan ymchwil academiaidd: canfu [astudiaeth](#) o rieni incwm isel yn Minnesota, bod ehangu'r rhaglen cymhorthdal gofal plant wedi arwain at gyflogaeth uwch ymhlith rhieni incwm isel â phlant ifanc. Canfu [astudiaeth](#) academiaidd arall, wrth edrych ar effaith gofal plant â chymhorthdal yn yr Almaen, bod cynnydd mewn gofal â chymhorthdal wedi arwain at gynnydd mewn cyflogaeth.

Mae ymchwil academiaidd yn awgrymu y gall gofal plant am ddim, neu gofal plant â chymhorthdal gynyddu cyflogaeth (yn enwedig cyflogaeth mamol), yn y tymor hir a'r tymor byr. Fodd bynnag, mae [adolygiad](#) cynhwysfawr o effaith gofal plant â chymhorthdal ar gyflogaeth, o'r farn bod yr effaith yn dibynnu ar gynllun y polisi, cyd-destun y wlad, a nodweddion mamau'r plant cyn oed ysgol.

Mae canfyddiadau Blwyddyn 4 [Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru](#) yn nodi bod y Cynnig wedi galluogi llawer o rieni i gynyddu eu henillion, 'yn enwedig y rhai o fewn grwpiau incwm is'. Yn ôl y Gwerthusiad, o'r rhieni a holwyd, dywedodd un o bob deg na fydden nhw mewn gwaith oni bai am y gefnogaeth a roddwyd gan y Cynnig.

Canfu [astudiaeth](#) diweddar a oedd yn canolbwyntio ar effaith posibl gofal plant ar gynyddu'r gweithlu yn Lloegr nad oedd darpariaeth ran amser yn cael llawer o effaith ar ffigurau cyflogaeth, ond roedd o'r farn bod darpariaeth lawn amser yn arwain at effaith sylweddol. Mae Asiantaeth Cydraddoldeb Rhywedd Sweden yn [awrgrymu](#) y gwelir yr effaith fwyaf pan fydd cyllid ar gael i famau di-waith.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1303
Ein cyf/Our ref JMSS/01015/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

13 Hydref 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 12 Medi ynglŷn â Deiseb P-06-1303 - Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio. Bwriad y model cymysg o ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yw sicrhau bod dewis a hyblygrwydd ar gael i rieni o ran y math o ofal y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu plant. Rwy'n croesawu'r cyfle i nodi'r camau gweithredu rydym eisoes yn eu cymryd mewn cysylltiad â hyn.

Rydym yn cydnabod bod mynediad at ofal plant fforddiadwy a hyblyg yn cael ei nodi'n aml gan rieni, yn enwedig mamau, fel un o'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio, neu gamu ymlaen yn eu gyrfaedd. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth i blant tair a phedair oed am 48 wythnos y flwyddyn, i helpu teuluoedd gyda'r costau hyn. Mae'r cynllun, a sefydlwyd yn y man cyntaf i gefnogi rhieni sy'n gweithio, yn mynd o nerth i nerth, gyda mwy o deuluoedd yn elwa ar y Cynnig bob blwyddyn.

O fis Medi eleni, ac yn unol â'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ehangu mynediad at elfen gofal plant y Cynnig i rieni sydd mewn addysg a hyfforddiant yn ogystal â rhieni cymwys sy'n gweithio. Mae mynediad at elfen addysg gynnar y Cynnig yn gyffredinol, ac mae gwerthusiad annibynnol o'r Cynnig yn canfod yn gyson fod rhieni'n credu ei fod yn eu helpu nhw a'u teuluoedd. Yn ôl y gwerthusiad diweddaraf, roedd 73% o rieni yn teimlo ei fod wedi ei gwneud hi'n haws iddyn nhw weithio a 46% yn teimlo ei fod wedi cynyddu eu hincwm gwario. Mae'r rhan olaf yma'n arbennig o bwysig yn yr hinsawdd sydd ohoni, a dyna pam fy mod i mor falch ein bod wedi gallu ymestyn y Cynnig i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

Wrth gwrs, dim ond un rhaglen o gefnogaeth i rieni yw'r Cynnig Gofal Plant. Rwyf newydd gyhoeddi [buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn](#) yn y sector gofal plant fydd yn helpu i ddarparu cyfleusterau eithriadol i blant ledled Cymru, yn ogystal â chefnogi effeithiau cadarnhaol, hirdymor ar fywydau plant a theuluoedd drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae hyn yn rhan o'r ymrwymiad i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

plentyn dwyflwydd oed, fel y nodwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddarau a'r Cytundeb Cydweithio.

Rhaglen ddatblygiadol yw Dechrau'n Deg sy'n anelu at gefnogi plant 0-4 oed yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n cynnwys pedair elfen sydd, wrth eu cymhwysu gyda'i gilydd, yn cefnogi datblygiad plant ar draws eu blynyddoedd cynnar ac yn sicrhau eu bod yn cyrraedd cerrig milltir allweddol, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn cynnwys 12.5 awr o ofal plant am ddim i blant rhwng 2 a 3 oed. O fis Medi eleni ymlaen rydym wedi ehangu darpariaeth pedair elfen Dechrau'n Deg, gan sicrhau y bydd hyd at 2,500 o blant ychwanegol ledled Cymru yn elwa ar y rhaglen. Cadarnhaodd fy nghyhoeddiad diweddar y byddwn o fis Ebrill 2023 ymlaen yn ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg ymhellach, gan sicrhau bod dros 3,000 yn rhagor o deuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth gyda gofal plant.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gwyliau'r haf yn gallu bod yn gyfnod arbennig o heriol i rai teuluoedd. Roeddwn felly'n falch o adeiladu ar lwyddiant yr Haf o Hwyl yn 2021 gyda £7 miliwn ychwanegol yr haf hwn i ariannu gweithgareddau rhad ac am ddim i gefnogi ein pobl ifanc a helpu teuluoedd ledled Cymru gyda chostau byw cynyddol dros fisoedd yr haf. Roedd Haf o Hwyl 2022 yn eistedd ochr yn ochr â rhaglenni fel y cynllun Gwaith Chwarae, sy'n cefnogi mynediad at gyfleoedd chwarae ledled Cymru, a'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a ariannwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

Ein nod yw cynyddu mynediad at ddarpariaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau y gall mwy o blant a theuluoedd elwa ar fynediad at ddarpariaeth a ariennir cyn oedran ysgol statudol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r angen i gefnogi'r sector a'i ddatblygu er mwyn gallu gwneud hyn, a dyna pam fy mod wedi cynnwys cyhoeddiadau am gyllid cyfalaf ychwanegol yn fy natganiadau diweddar.

Mae Ms Byrne hefyd yn nodi yn nodiadau cefndir y ddeiseb y dylai Llywodraeth Cymru "ystyried lleoli meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant ar dir ysgolion." Roedd hwn yn nodwedd allweddol o'n cyllid cyfalaf blaenorol ar gyfer gwasanaethau gofal plant a bydd yn parhau wrth symud ymlaen.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i "fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol".

Mae gwneud defnydd effeithiol o gyfleusterau addysgol i blant a'r gymuned leol wastad wedi bod yn nod allweddol sy'n ategu buddsoddiad mewn addysg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.


Cyflwynwyd Cynllun Peilot Canolfannau Cymunedol gwerth £15 miliwn yn 2019-20. Darparodd y cynllun, a reolir drwy'r Rhaglen, gyllid cyfalaf i 21 o gynlluniau peilot. Hyd yma, mae 11 ohonynt wedi'u cwblhau, mae 4 yn cael eu hadeiladu a disgwylir i'r gwaith o adeiladu 6 arall ddechrau. Dyrannwyd yr arian ar sail tair thema; ehangu ymgysylltiad teuluol a chymunedol; ymestyn y defnydd o asedau ffisegol at ddefnydd y gymuned; a chydleoli gwasanaethau i ffurfio canolfannau cymunedol.

Un o'r ddau amcan buddsoddi ar gyfer ail don fuddsoddi'r Rhaglen, gwerth £2.3 biliwn, yw gwneud y defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus i'n cymunedau erbyn 2024. Mae hyn yn cynnwys hyblygrwydd asedau er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n cymunedau; defnyddio eu cyfleusterau i ehangu ymgysylltiad teuluol a chymunedol a chydleoli gwasanaethau i ffurfio canolfannau cymunedol. Mae'n proses graffu ar achosion busnes yn sicrhau cysylltiad agos

â dyheadau ehangach Llywodraeth Cymru o ran cymunedau a mwy o fuddsoddiad mewn cyfleusterau aml-ddefnydd, sy'n cynnig lle i ddarpariaeth Dechrau'n Deg ac Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, gydag opsiynau i gynnal gweithgareddau ar ôl ysgol hefyd.

Yn olaf, hoffwn hefyd dynnu eich sylw at waith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar [Gwarchod y dyfodol – y rhwystrau gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio](#) ac [ymateb](#) Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â llawer o faterion tebyg.

Yn gywir



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services
& Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee

26.10.2022

Cyf/Ref P-06-1303 Ein cyf/Our ref JMSS/01015/22

I would like to thank the Minister for her response to the petition.

However having read through the content of the response I do not feel the case she makes adequately addresses the issues raised in the petition.

The main case the petition wishes to identify is the lack of universal affordable and accessible childcare for all parents in Wales.

The response from the Minister instead reinforces the fact that what we have in Wales is a very piecemeal approach that provides **some** childcare for **some** parents **some** of the time – this is a long way from the request made by the petition and her response seems to make it clear she does not understand or is not aware of the lived reality for parents and carers across Wales, which is disappointing.

The following statements are taken from her response:

choice and flexibility for parents in the type of care parents use for their children,
I cannot see from the types of childcare the Minister refers to that choice and flexibility is in fact in place. The only schemes she references have restrictive conditions to be able to access them, cater for a very specific and narrow age range, run for only part of the day and/or part of the year and those days and times are often arbitrary in terms of how they match with parents employment or training patterns and set by the provider so in fact the idea of 'choice' is not evidenced in the reality of the provisions she identifies.

access to affordable and flexible childcare is often cited by parents, and particularly mothers, as one of the main barriers preventing them from working or progressing further in their careers.



Yes this is absolutely the case the petition is making. Affordable and accessible childcare is a barrier to women in particular enjoying equality in terms of employment and the various approaches detailed by the Minister do little to address this. The case is constantly made that women lag behind men in terms of earnings, retirement income etc and one of the biggest factors in the UK is this lack of affordable and accessible childcare. Until that is in place for all women equality will not be achievable.

expand early years provision to all two-year olds

Early years provision is not the same as full time childcare needed by parents in order to access employment. It is piecemeal, does not cover the full working day, nor the full working year, and only kicks in when children reach a certain age. I object to this even being included as a response that meets parental needs for childcare. Early years provision was never meant to be a responses to childcare needs, instead the funding and motivation behind this provision is to provide the 'flying start' and enrichment children need to thrive. I object to this being conflated with the need for reliable, affordable accessible childcare needed by working (or training) parents. Childcare needs to open at a time that allows parents to get to work, and close at a time that enables parents to work a full day, 52 weeks of the year – early years provision does neither of those.

12.5 hours of free childcare for children aged 2-3

Again I object to this being put forward as any kind of response to the need for full time, reliable, affordable and accessible childcare needed by parents and carers in order to take up employment. This only kicks in for a very short time in a child's life, does not run 52 weeks of the year and mostly parents do not have much control over which 12.5 hours in the week they are offered – eg mornings vs afternoons and some settings switch those two options on a term by term basis – how is a parents/carer meant to find a job or training course that can adapt tot that sort of pattern? This is a wholly inadequate response to the request in the petition.

The Summer of Fun 2022 sat alongside programmes like the Playworks scheme, which support access to play opportunities across Wales, and the School Holiday Enrichment Programme funded by the Minister for Education and Welsh Language. Again it feels like the Minister is throwing in anything and everything related to funding provided towards children, rather than providing a response connected to the substance of the petition, which is for full time, reliable, affordable and accessible childcare. Nothing in this extract from her response describes childcare that meets the needs of working parents.



I would like to make some further points that are personal to my experience and that of other families in Ceredigion and illustrate the case made by the petition.

The Childcare Offer

I manage a setting that registered to provide the Childcare Offer. What we found is that eligibility was so specific that the vast majority of parents who would have benefited from access to the scheme were not eligible. This does not meet the needs of working parents for many reasons – the very restrictive eligibility; the short hours it offers; the very small age range it covers; the number of weeks it provides. It is wholly inadequate as a response to the case made by the petition. It may be that a percentage of parents benefiting from the offer find it useful, but that does not at all reflect the views of the parents who are not eligible to access it, and it is their needs the petition seeks to reflect.

Choice and flexibility

I would really like the Minister to identify the areas in Wales where parents have the luxury of choice and flexibility in finding affordable local childcare that meets all their needs, and particularly showing me where that exists in Ceredigion?

To illustrate the need I would like to share the following:

Impact of lack of childcare example one

My niece is a Band 5 nurse and has a 1 year old and a 6 year old. During maternity leave in 2021 she applied for and got a placement as a Child Health nurse with Flying Start to start the process of training as a Health Visitor. Due to the lack of childcare in the summer holidays when her placement started I had to adjust my full time working hours to step in to care for the baby and the 5 year old because her partner also works full time and his employers were not flexible. She then found a childminder but within 6 months the childcare gave her notice and gave up childminding to train as a social worker. Again I had to adjust my working hours to care for both the children, the 1 year old during the day and the 5 year old after school. After a very stressful and tearful few weeks when she nearly gave up her chance to be a Health Visitor so many times, another childminder was found. And I now have to help by collecting the now 6 year old from school, impacting on my employment meaning I have to make up hours in the evening and at weekends. Like so many grandparents (I brought my niece up so am more like a parent than an aunt) my childcare role enables the younger generation to work.



Impact of lack of childcare example two

I manage a local charity and an employee recently was in tears explaining to me she was going to have to hand in her notice. She had started with us 2 years before, we had provided access to training for her to gain her Level 2 & 3 in Youthwork and she assisted with our 3 days a week youth clubs for 6 – 19 year olds. Her parents were not in the best of health (her father has since passed away) and were becoming exhausted looking after her 1.5 year old and his other grandparents worked full time as does her partner. S lives in a Flying Start area so we asked them for help, but her son was not of the right age, and then when he reached the right age the days and times they could offer did not match her employment. Before S started with us her work was waitressing in a local café, unfortunately due to lack of childcare she had to give up her youth work role with us, reducing the income for her family and taking a qualified and enthusiastic youth worker out of the sector.

Impact of lack of childcare example three

K works in the local supermarket and Post Office and has one son aged 8. She needs childcare after school and during school holidays. There is one playscheme in her local area and it runs for 2 weeks in the summer holidays and the after school club closes at 5.30pm (recently extended from 5pm). The only way she can continue to work is relying on her parents to collect her son from after school club as her shift ends at 5.30 and for them to care for him during school holidays. The fact that she has to rely on her parents so much causes family tensions.

If allowed I would be happy to collect many more stories from Ceredigion parents and grandparents, to illustrate the detrimental impacts caused by this lack of affordable, accessible childcare that meets the needs of working parents.

I am very disappointed by the Ministers response as it seems to illustrate a disconnect between the lived reality for parents in Wales and the belief held by those in power, which therefore does not provide much hope for any positive changes going forward.

I would hope that the Petitions Committee might reflect on the reality parents are facing and give some indication of a positive change in future policy?

Gill Byrne
Petitioner

Eitem 3.1

P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mayameen Meftahi, ar ôl casglu 227 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Mae'r syniad y tu ôl i dai plant yn seiliedig ar yr arferion gorau a welir yn yr UDA a Sgandinafia. Gan gydnabod bregusrwydd plant sy'n ddiodefswyr, a'r niwed y mae cyfweiliadau niferus yn ei achosi iddynt, mae tai plant yn ymateb sy'n ystyriol o blant wrth ymdrin ag achosion lle y cam-driniwyd plentyn yn rhywiol.

Yn y DU, mae dau dŷ plant yn ninas Llundain, ond nid oes yr un yng Nghymru.

Nid yw plant yn gwybod at bwy nac i ble y gallent droi, nid ydynt yn gwybod bod cymorth ar gael, ond trwy gynnig Tai Plant ledled y DU, gallwn achub plant.

Parhau â llochesi i ddiodefswyr trais domestig, ond dylai fod Tai Plant ar gyfer plant sy'n dioddef camdriniaeth rywiol.

Gwyddom y bydd llawer o blant sy'n cael eu cam-drin yn ceisio dianc rywbyrd; byddant am ddod yn rhydd o'u sefyllfa, ond nid oes ganddynt rywle i droi. Cânt eu dychwelyd adref, yn ôl i afael y sawl sy'n eu cam-drin.

Gallai darparu tŷ diogel sy'n ystyriol o blant agor y ffordd at ddatgelu a diogelu.

Yng Ngwlad yr Iâ, mae model 'Barnahús' ar waith er 1998, sef lle ar gyfer cynnal cyfweiliadau ffrensig, gwneud datganiadau llys, cynnal archwiliadau meddygol a chael mynediad at wasanaethau therapiwtig, i gyd o dan un to. Dylem roi hyn ar gael, fel y gwnawn o ran llochesi i ddiodefswyr trais domestig. Ers i Wlad yr Iâ sefydlu'r model Barnahús, mae nifer y plant sy'n gofyn am gymorth ar ôl dioddef camdriniaeth rywiol wedi mwy na dyblu bob blwyddyn, mae nifer y cyhuddiadau wedi treblu, ac mae nifer yr euogfarnau

wedi dyblu. Mae hyn yn ddigon o dystiolaeth i ddangos bod y tai hyn yn hanfodol.

Dylid darparu tai plant, ac ar ben hynny dylid dysgu i blant fod yr opsiynau hyn ar gael.

Ymunwch â ni yn yr ymgyrch i fynd i'r afael â'r mater hwn, a phwyso ar i Lywodraeth Cymru ddarparu Tŷ Diogel yng Nghymru – ni allwn ddisgwyl i blant fynd i Lundain, hyd yn oed lle maent yn gwybod am fodolaeth tai o'r fath.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae ar ein plant angen rhywle iddynt fynd iddo, mae angen iddynt fod yn ddiogel, ac mae angen iddynt allu cyrraedd y cymorth cywir i achub y plant hyn rhag oes o ddioddef oherwydd Camdriniaeth Rywiol.

Llofnodwch y ddeiseb hon a gwneud i bethau ddechrau symud!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Abertawe
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-859
Ein cyf/Our ref JMSS/00976/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

13 Hydref 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Awst at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf yn ymateb ar y mater hwn yn rhinwedd fy swydd fel y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae eich llythyr yn gofyn pa ystyriaethau gafodd eu gwneud o'r gwerthusiad terfynol o'r Tŷ Plant peilot yn Llundain, yn sgil ein hymrwymiad i ystyried hyn mewn ymateb i ddeiseb P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i blant sy'n dioddef camdriniaeth rywiol.

Fel y gwyddoch, cafodd yr [adroddiad gwerthuso](#) terfynol ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2021. Mae'n tynnu sylw at lwyddiannau prosiect *The Lighthouse*, ac rwy'n nodi bod y gwerthusiad yn awgrymu'n gryno bod:

Exploring impact triangulated across a range of data – compared to a BAU; Lighthouse delivered more, had more positive wellbeing outcomes, had more positive investigative actions but no difference in terms of charges or convictions. Cost data indicated that Lighthouse was more expensive than the BAU but may be able to generate a more positive financial return over a long time period.

Rwyf wedi cael fy nghynghori bod yr hyn a ddysgwyd o brosiect *The Lighthouse* o gymorth i'r gwaith presennol sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru. Rwy'n hyderus mai'r dull priodol yw'r dull gweithredu sydd ar waith yng Nghymru, gyda ffocws canolog clir ar ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma, ar gyfer plant sy'n dioddef camdriniaeth rywiol.

Fel y nodwyd gan y Prif Weinidog a finnau yn y gorffennol, mae daearyddiaeth Cymru a nifer y plant y mae angen y gwasanaeth hwn arnynt, yn golygu na fyddai darparu un Tŷ Plant ar gyfer Cymru er budd gorau'r plant hyn. Ein pryder yw y byddai buddsoddi mewn un lleoliad ar gyfer gwasanaeth o'r math hwn yn golygu y byddai angen i rai plant deithio pellter mawr i gael cymorth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 60
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn brosiect gwella a arweinir gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, yn gweithio ar y cyd â'r byrddau iechyd, yr heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector arbenigol. Mae'r rhaglen yn gyrru'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn drwy sicrhau bod llais y dioddefwr yn ganolog, er mwyn dod â'r canlyniadau gorau i'r rheini sydd wedi dioddef trais a chamdriniaeth rywiol. Mae'r byrddau iechyd, yr heddluoedd, a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, wedi cytuno ar fodel ar gyfer gwasanaethau atgyfeirio i'r rheini sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol, yn y De, Dyfed Powys, Gwent a'r Gogledd. Bydd y model yn darparu gwasanaeth mwy integredig sy'n seiliedig ar anghenion y dioddefwr a'r claf, ac sy'n cefnogi'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni safonau a chanllawiau clinigol, fforensig, ansawdd a diogelwch, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae cydweithwyr yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru yn parhau i ymgysylltu â swyddogion o bob un o'r pedair gwlad, ac mae ymgysylltu parhaus yn digwydd â thîm *The Lighthouse*.

Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu [Straen Trawmatig Cymru](#) (£1.2 miliwn yn flynyddol), gyda'r nod o wella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru o bob oed sydd mewn perygl o ddatblygu anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD) neu anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth (CPTSD), neu sydd eisoes wedi datblygu'r anhwylderau hyn.

Mae'r fenter hon yn gwasanaethu plant, pobl ifanc ac oedolion, ac mae'n cael ei chynhyrchu a'i darparu gan yr holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o PTSD a CPTSD, ac mae'r holl randdeiliaid hyn yn berchen arni. Un ffocws allweddol o'u gwaith yw gwella mynediad at therapiau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bobl sydd wedi dioddef digwyddiadau trawmatig - gan ddefnyddio ymchwil a gwaith gwella ansawdd i roi sylw i fylchau mewn gwybodaeth, capasiti a gallu - yn ogystal â gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed yng Nghymru sydd mewn perygl o ddatblygu PTSD neu CPTSD, neu sydd eisoes wedi datblygu'r anhwylderau hyn. Defnyddir addysg a hyfforddiant, ymchwil a datblygu, archwilio clinigol, a methodoleg wella i yrru system sy'n dysgu ac yn gwella effeithiolrwydd yn barhaus.

Mae i Straen Trawmatig Cymru nifer o ffrydiau gwaith gwahanol, sy'n canolbwyntio ar ymosodiadau rhywiol, cyfiawnder troseddol, mudo sydd wedi'i orfodi gan amgylchiadau, profiadau amenedigol; ac ar oedolion a phobl ifanc, ac ar asesu a chanlyniadau.


Mae'r Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol yn grŵp Cymru gyfan, sy'n cynnwys y rheini sy'n darparu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ac sy'n gweithio yn y canolfannau hynny, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl sydd wedi dioddef trawma rhywiol. Nod y grŵp yw datblygu llwybrau gofal trawma effeithiol ar draws yr holl ddarparwyr iechyd a thrydydd sector, sef llwybrau sydd wedi eu cydgysylltu a'u hintegreiddio ar draws y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r grŵp yn cyflawni hynny drwy weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd, sefydliadau gwirfoddol, a gwasanaethau statudol. Mae wrthi'n datblygu fframweithiau cymwyseddau a fydd yn cefnogi mentrau hyfforddi i staff rheng flaen, yn ogystal ag ar gyfer darparu therapiau trawma. Mae Cadeirydd y Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol hefyd yn arweinydd rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru.

Ymysg y datblygiadau eraill yng Nghymru, mae [Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma](#), a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac a gafodd ei ddatblygu gan Straen Trawmatig Cymru a'r Ganolfan Cymorth ACE (profiadau niweidiol yn ystod plentyndod). Nod y fframwaith hwn i'r gymdeithas gyfan yw hwyluso dull gweithredu cydlynol a chyson ar gyfer datblygu a gweithredu arferion sy'n ystyriol o drawma ar draws Cymru, er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Straen Trawmatig Cymru a Chanolfan Cymorth ACE i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y fframwaith. Bydd hyn yn ystyried pa waith pellach mae angen ei wneud i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith, a gallai hyn gynnwys cyflawni rhagor o waith ar y cyd â gwasanaethau sy'n helpu plant sy'n dioddef camdriniaeth rywiol mewn modd sy'n ystyriol o drawma.

Rwy'n gobeithio bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd bod y gwaith a ddisgrifir uchod â'r nod clir o greu system lle mae plant sy'n dioddef camdriniaeth rywiol yn gallu cael y cymorth iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn.

Yn gywir,



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tassia Haines, ar ôl casglu cyfanswm o 14,106 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae pobl sy'n byw â chanser y fron metastatig yng Nghymru yn cael eu hesgeuluso'n ddybryd gan y system. Ar hyn o bryd dim ond un nyrs glinigol arbenigol canser y fron neilltuedig sydd gan Gymru, sefyllfa a allai adael cannoedd o bobl heb ddigon o gymorth. Mae angen i ni wybod faint o bobl sy'n byw gyda chanser y fron metastatig er mwyn gwella gwasanaethau. Ac rydym am wella canlyniadau o ran ansawdd bywyd drwy godi ymwybyddiaeth o symptomau baner goch ar gyfer canser y fron metastatig.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Rydym yn galw am y canlynol:

1. Dylai pob person â chanser y fron metastatig yng Nghymru gael mynediad at nyrs glinigol arbenigol neilltuedig ar gyfer canser y fron eilaidd.
2. Dylid casglu data am y rhai sy'n byw â'r cyflwr ac yn cael triniaeth ar ei gyfer yng Nghymru.

Rydym wedi ysgrifennu llythyr agored at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ran cleifion canser y fron metastatig i ddangos yr angen am well ansawdd bywyd a mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n byw â'r cyflwr.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1294
Ein cyf/Our ref EM/02910/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

14 Hydref 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ynglŷn â deiseb (P-06-1294) ar gyfer gwella gofal cancer metastatig y fron.

Rwyf wedi ymrwymo i wella canlyniadau a gofal cancer yng Nghymru. Disgrifir ein dull gweithredu yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Cancer, sy'n cynnwys y disgwyliad y bydd y gweithlu cancer yn cael ei gynllunio gyda'r nod o fodloni'r galw a ragwelir, yn benodol o ran oncoleg glinigol a meddygol, nyrsys cancer arbenigol, ffiseg feddygol, a radiograffwyr therapiwtig, ac rydym yn gweithio gyda'r GIG drwy ei brosesau cynllunio ac atebolrwydd i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Rwy'n disgwyl i wasanaethau cancer gael eu cynllunio a'u darparu yn unol â safonau proffesiynol. Mewn cyfres o lwybrau delfrydol cenedlaethol, rydym wedi disgrifio'r hyn a ddylai ddigwydd pan fydd claf yn ymuno â llwybr cancer. Dylai pobl sydd â chanser metastatig y fron gael eu cefnogi gan dîm amlbroffesiynol gyda mewnbwn nyrsio arbenigol fel y bo angen. Dylai pawb sydd â chanser gael asesiad holistaidd o'u hanghenion i sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae ei angen. Fodd bynnag, mater i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yw dyrannu'r gweithlu sydd ar gael iddynt yn ôl anghenion eu poblogaeth.

Nid rôl Llywodraeth Cymru yw pennu pa gyflyrau a ddylai elwa ar gymorth nyrsio arbenigol dynodedig. Rwy'n ymwybodol iawn y gall unrhyw ganser fetastaseiddio, ac nad yw mynediad at nyrsio arbenigol o dan yr amgylchiadau hynny'n fater sydd wedi ei gyfyngu i ganser y fron. Mae'n bwysig sicrhau tegwch wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sydd â gwahanol ganserau, ac ni ellir gwneud ymrwymïadau ynghylch cancer metastatig y fron ar draul darparu cymorth i bawb sy'n byw gyda chanser o unrhyw fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 64
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun gweithlu nyrsio cenedlaethol er mwyn sefydlu gweithlu nyrsio mwy cynaliadwy. Bydd y cynllun hwn yn ein galluogi i weithio mewn modd a dargedir wrth weithredu atebion ar gyfer y gweithlu mewn meysydd o flaenoriaeth ddynodedig. Un o elfennau craidd y gwaith datblygu hwn yw mapio a dadansoddi'r gweithlu nyrsio presennol. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth o ran sut mae'r gweithlu nyrsio yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd. Rwy'n edrych ymlaen at gael cynllun drafft ar ddechrau 2023, a hoffwn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y prosesau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn i'w sylwadau helpu i ddatblygu nyrsio arbenigol ar gyfer cancer.

Rwyf hefyd yn cydnabod nad oes digon o ddata hawdd cael mynediad atynt, ar ofal cancer metastatig, a bod y diffyg hwn yn rhan allweddol o'r mater gan y gellid defnyddio data o'r fath i wella sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Dyma un o'r rhesymau pam roeddwn i'n fodlon rhoi cyllid ychwanegol i'r rhaglen archwiliadau clinigol cenedlaethol, i gyflwyno archwiliad ofal cancer y fron sylfaenol ac eilaidd. Bydd yr archwiliad hwn yn dechrau'r flwyddyn nesaf a bydd yn darparu dealltwriaeth o ran y gofal a dderbynnir gan bobl sydd â chanser y fron er mwyn helpu i wella gwasanaethau. Rwy'n deall y bydd yr Arolwg diweddaraf o Brofiadau Cleifion Cancer hefyd yn darparu canlyniadau sydd hefyd yn ymwneud â chlefyd metastatig. Yn ogystal â hynny, bydd y system gwybodaeth cancer newydd, sy'n cael ei chyflwyno yn lle System Gwybodaeth Rhwydweithiau Cancer Cymru, yn gweithredu mewn modd mwy effeithlon er mwyn galluogi'r defnydd mwy effeithiol a rheolaidd o ddata am ganser metastatig.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth wrth i'ch Pwyllgor ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 3.3

P-06-1289 Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau llety gwyliau ac ail gartrefi

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Linda Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 3,332 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Fel rhan o'i pholisi treth i gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru am wella'r broses o wahaniaethu rhwng lletyau gwyliau cyfreithlon wedi'u dodrefnu ac ail gartrefi. Mae'r Gorchymyn drafft, er gwaethaf y cyngor i'r gwrthwyneb a gafwyd yn ymgynghoriad y Llywodraeth ei hun, yn codi lefel y ddeiliadaeth sy'n ofynnol ar gyfer ennill statws fel busnes o 70 i 182 diwrnod. Nid yw hyn o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o letyau gwyliau wedi'u dodrefnu, a fydd naill ai'n cau neu'n cael eu hailbennu fel ail gartrefi o ganlyniad i'r newid. Rydym yn cynnig trothwy o 105 diwrnod, sef cynnydd o 50 y cant, yn unol â diffiniadau Cyllid a Thollau EM.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae Cynghair Twristiaeth Cymru, UK Hospitality Cymru a Chymdeithas Broffesiynol yr Hunan Arlwywyr wedi casglu tystiolaeth gan oddeutu 1,500 o fusnesau bach yng Nghymru i ddangos y canlyniadau anfwriadol niweidiol i fywoliaeth a chymunedau yng Nghymru yn sgil trothwy o 182 diwrnod. Mae'n nodi na fydd y Llywodraeth yn cyflawni ei bwriad o ran polisi, sef cyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yng Nghymru, ond y bydd yn hytrach yn lleihau nifer y busnesau Cymraeg lleol. Mae'r adroddiad a'r dystiolaeth sy'n ategu'r ddeiseb hon i'w gweld yn https://www.pascuk.co.uk/wp-content/uploads/2022/04/UKH.WTA_.PASC-BoE-1500-080422.docx Y Gorchymyn drafft yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-06-1289 Agree 105 day occupancy, not 182 days, to distinguish holiday let businesses from second homes - Petitioner to Committee, 07 October 2022

I attach a further document for the Committee's attention, which arrived just a day or two ago.

We commissioned an *informal* peer review of the Welsh Government's consultation process and supporting EM and RIA, as we had grave concerns about the robustness of the process which led to the making of the Order introducing the 182-day threshold. Depending on the contents, the response would form the basis of a request for a formal review.

As you will see, the concerns appear to be justified. The attached was prepared by two recently retired civil servants (Grade 6) with extensive experience of policy and legislation development in DCLG (particularly housing) and Cabinet Office; it is an England & Wales civil service operating to common standards. Correspondence to the Permanent Secretary is now being prepared on the back of this.

The document speaks to the quality of policy making and opens up areas for further scrutiny which have not yet been examined in the Senedd. We hope that this is of interest.

Many thanks

Suzy Davies

Notes on correspondence and documentation relating to the Non Domestic Rating (Definition of Domestic Property) (Wales) Order 2022

Caveats

- Comments made are based on information available. There may be other publications which have not been seen which contain relevant information
- We have no knowledge of the specific rules around the work conducted by the Welsh Government, which may well be different from the UK Government. However, the flaws identified beg the question why the people of Wales should be subject to much poorer policy making than the people of England.

Headline conclusions

We have been through the detailed questions and answers in the correspondence. There is little point reiterating the detail, but some very clear key points emerge.

- 1) Setting out the problem to be solved

The correspondence states the Explanatory Memorandum sets out the purpose and intended effect of the legislation. But neither it nor the consultation does this in a way that goes beyond a statement in a manifesto pamphlet. At the point at which policy is translated from headline statement to legislation and putting it into operation it requires much more rigorous justification.

Merely saying “we also recognise the impact that higher numbers of second homes and self-catered holiday lets can have on local housing markets and on the sustainability of local communities, particularly in areas where properties are not occupied for parts of the year. We want to ensure that all home owners and businesses make a fair contribution to the communities in which they own or let property. That is why we are reviewing the arrangements for the local taxes, council tax and non-domestic rates.” is not sufficient. There should be visible and sourced material in the RIA to underpin these assertions. There are not. To make a case for intervention – especially fiscal intervention – there should be a bare minimum of supporting data and analysis.

In England, civil servants are required to follow the Treasury Green Book when putting together the case for a policy intervention – even a proposal in a manifesto. The Green Book sets out how to prepare options appraisal and applies to all proposals that concern public spending, taxation, changes to regulations, and changes to the use of existing public assets and resources. It is key in how to make the business case for government interventions and operationalising public policy. The most basic requirement is a clear understanding of the existing arrangements, the business needs (related problems and opportunities), and the potential benefits, risks, constraints and dependencies associated with the proposal. None of that is visible in the documents we have seen.

2) Data/Evidence

The correspondence and RIA are both littered with statements saying there is no data demonstrate the problem (bar the Brookes report, which the author states is limited in scope) and no evidence to show what impact the changes would have. We are actually shocked by how poor a response this is.

Firstly, why isn't there data on things like the housing markets, trends in second homes and self-catering, economic contribution of tourism broken down by place. This kind of basic data should be available and prayed into their case?

Secondly, they seem to conflate data with evidence, but even where data is limited, in any decent policy cost/benefit analysis by the civil service in England, it is possible to do very thorough and sophisticated modelling/scenario planning through in-house or even external statisticians.

Thirdly, this is hardly an issue that affects only Wales. What national and international research has been done on the effectiveness of different tax interventions on housing markets (not least because housing markets are notoriously difficult to affect through policy intervention)?

Interestingly, the one area they appear to have done some modelling work is on the increased costs – and subsequently local authority income – within their chosen policy scenario. But this too is very limited to cash based costs without any real analysis of broader economic effects.

3) Income generation vs housing solution

It is quite clear from the RIA that this policy is about income generation for local authorities and not support for local people trying to access the housing market, despite claims to the contrary in the policy statements. There is one line in the RIA which states “It is not possible to predict how many permanent homes may be made available or whether they would be affordable to locals.” So there is no evidence at all for this. Interestingly, there is no suggestion they have done any behavioural analysis on this. (The former Cabinet Office Behavioural Analysis Unit has been privatised and could easily do some work on this).

On the basis that this is therefore an income generator for local authorities, we would expect there to be a basic analysis of what is meant by “fair contribution” and how this marries up between taxation and the wider economic benefits of tourism income.

4) Impact assessment(s)

The RIA is extremely poor and would not be of an acceptable standard in the civil service in England. The fact that the three options chosen for consideration do not include the option supported by the majority of the consultees is nothing short of breathtakingly arrogant. If the government is sure of its chosen option it should be able to include that middle option and set out its advantages and disadvantages without fear. The fact the government hides behind the lack of data

means it is essentially saying the least favourite option is chosen because of their own incompetence.

But the RIA is even worse in its impact 'analyses'. To describe the disadvantages of their chosen policy without exploring the impact on small and medium sized businesses in a tough market with tight margins is staggeringly irresponsible. How many people that lose SBRR or move to Council Tax will lose their business as a result? We actually can't believe this isn't covered at all.

Equally dismissive is the RIA in terms of Equalities Impact. Essentially saying we don't know how many women or pensioners rely on this income so we don't care. It is NOT acceptable in terms of equalities impact to simply say they have as much chance as anyone else of meeting the new criteria. They should at a minimum explore how many people will suffer if they don't. At the very least they could model it eg, if someone is on a state pension supplemented with let income for the current number of days how much would they lose if they lost the NDR.

5) Consultation

The technical consultation is woefully inadequate. If this were being done by the civil service in England, a technical consultation would be expected to be a consultation on the regulations, setting out in detail the likely costs of the chosen policy and be based on evidence. As it is about a change to the tax base they would be expected to have a full impact assessment, and full economic impact assessment and a full equalities impact assessment.

It only asks 8 questions - two of which are about the clarity of the terminology and two about the impact on the Welsh language. Anything less than 15 -20 questions in a technical consultation is very poor.

In fact only a total of 13 questions in both consultations have been asked which, for a significant change to a tax base affecting a major economic sector in the country, is extraordinarily weak.

6) Review clause

The Minister states that it is not routine practice to build in a formal review. Regardless of routine, the point of reviews is to allow a reassessment in the event of a policy change. Nowhere is this more needed than when the evidence base for a policy change is very limited. Given the lack of data and evidence in this case, it seems like a prime candidate. She states that the impact will be monitored by officials. If these are the same officials who are unable to put together

a decent evidence base policy we would have little faith that they have the capacity to monitor impact adequately.

Conclusion

In short, the reply from the Welsh Minister relies heavily on the consultations, the Explanatory Memorandum and Regulatory Impact Assessment. Each of these is incredibly weak and deeply flawed. There is no robust identification of the problem, no robust data, evidence or analysis supporting an intervention, and no indication that any consideration has been given to the responses to the consultation.